# Cyfarfod Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (SPNAB)

## Cofnodion

**23 Hydref 2019 –Ystafell Gyfarfod Cribyn, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Daniel Groves (DG) | Cadeirydd (Annibynnol) |
| Katie Dalton (KD) | Cymorth Cymru |
| Cheryl Emery (CE) | Cynrychiolydd y Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl |
| Will Atkinson (WA) | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Michelle Church (MC) | Cadeirydd y Grŵp Ymchwil a Chyllid Strategol |
| Diana Binding (DB) | Y Gwasanaeth Prawf |
| Frances Beecher (FB) | Y Gweithgor Llywodraethiant |
| Josie Smith (JS) | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Andrea James (AJ) | Grŵp Llywio Rhwydweithiau Tai |
| Claire Marchant (CM) | Cynrychiolydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Hannah Mills (HM) | Cynrychiolydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol |
| Martin Whatty (MW) | Grŵp Llywio Rhwydweithiau Tai |
| Sarah Rhodes (SR) | Llywodraeth Cymru |
| Sarah Bonwick (SB) | Llywodraeth Cymru |
| Angharad Rogers (AR) | Llywodraeth Cymru |
| Paul Webb (PW) | Llywodraeth Cymru |
| Julie Llewellyn (JL) | Llywodraeth Cymru |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Helen Northmore (HN) | Annibynnol |
| Frances Beecher (FB) | Llamau |
| Emma Williams (EW) | Llywodraeth Cymru |
| Naomi Alleyne (NA) | CLILC |
| Sam Parry (SP) | Arweinyddiaeth Tai Cymru |
| Harry McKeown | Cynrychiolydd Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Angela Lee (AL) | Cynrychiolydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol |

| Nodyn | Cam(au) Gweithredu |
|---|---|
| **1. Croeso a Chyflwyniadau** | |
| Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. | |
| **2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi** | |
| • Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 11/06/19 fel cofnod cywir..<br>• Mae'r newydd diweddaraf ynghylch camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol i'w gael ar ddiwedd y cofnodion.<br>• Eglurodd DG nad oedd wedi ysgrifennu at y Gweinidog gan gynnig argymhellion ynghylch sefyllfa Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl ("y Bwrdd") yn y dyfodol. Bu oedi ynghylch y gwaith hwn ac mae ar yr agenda i'w drafod. | |
| **3. Y diweddaraf oddi wrth Lywodraeth Cymru** | |
| **Newyddion diweddaraf am y Grant Cymorth Tai**<br>• Ar 7 Hydref, cyhoeddwyd drafft o'r canllawiau arfer newydd ar gyfer y Grant Cymorth Tai  ymgynghori arnynt. Bydd y broses ymgynghori'n para 8 wythnos a daw i ben ar 29 Tachwedd.<br>• Bydd y ddogfen ganllawiau derfynol yn berthnasol o fis Ebrill 2020 ymlaen. Bydd y trefniadau ar gyfer cynllunio strategol ac adrodd yn ôl a nodir yn y canllawiau yn berthnasol wrth fynd ati i i baratoi, i gynllunio ac i adrodd yn ôl ynghylch y Grant Cymorth Tai ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 a thu hwnt.<br>• Esboniodd PW y dylai awdurdodau lleol ddatblygu **un** Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai (RhCT) bob pedair blynedd, a fydd yn amlinellu trywydd strategol yr awdurdod ar gyfer gwasanaethau cymorth tai. Dylai hyn ddarparu un dull gweithredu strategol ar gyfer gwasanaethau cymorth tai, gan gynnwys atal digartrefedd a swyddogaethau statudol ynghylch digartrefedd a ariennir drwy'r setliad refeniw.<br>• Dylai awdurdodau lleol ddatblygu Cynllun Cyflenwi blynyddol ar gyfer y Grant Cymorth Tai. Dylai'r cynllun nodi sut y maen nhw'n bwriadu cyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer y Grant yn y Strategaeth, gan gynnwys bwriad yr awdurdod o ran gwariant a chomisiynu.<br>• Dywedodd CE fod awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf yn croesawu'r newidiadau a bod y canllawiau yn gosod strwythur da a threfniadau mwy eglur o ran gweithio'n rhanbarthol.<br>• Gofynnodd JS a fyddai targedau a sut y byddwn yn mynd i'r afael â chynlluniau cyflawni diffygiol, hynny yw, os yw'r cyllid ar gyfer gwasanaethau camddyfnyddio sylweddau yn annigonol? Cadarnhaodd PW na fydd targedau. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau ag | |

| | |
|---|---|
| awdurdodau lleol ynghylch sut y maen nhw'n mynd ati i wneud cynlluniau a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau er mwyn gyrru gwelliannau. Hefyd, bydd un Fframwaith Canlyniadau rhwng y Grant Cymunedau a Phlant a'r Grant Cymorth Tai, a bydd yn mesur perfformiad awdurdodau lleol wrth gyflenwi'r grantiau. Bydd y Fframwaith yn weithredol erbyn mis Ebrill 2020.<br>• Holodd JS ymhellach ynghylch y ffyrdd o rannu arfer da gan a rhwng awdurdodau lleol â'i gilydd. Esboniodd PW y bydd cyfarfodydd y rhwydwaith wybodaeth bob chwarter, cyfarfodydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a'r Bwrdd Cynghori Gweinidogol newydd yn ogystal â chyfarfodydd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol.<br>• Dywedodd KD fod darparwyr wedi croesawu alinio'r Grant Cymorth Tai a'r Grant Atal Digartrefedd, a'r trywydd yn gyffredinol. Fodd bynnag:<br>i. Mae darparwyr yn nerfus ynghylch y ffaith ei bod yn ymddangos nad ydynt yn atebol i neb. Er enghraifft, o ran awdurdodau lleol, nid yw'r canllawiau yn pennu pwy yw aelodau eu grwpiau cynllunio na sut y dylent gynnwys rhanddeiliaid. Maen nhw'n pryderu ei bod yn ymddangos bod gan awdurdodau reolaeth lwyr ac yn poeni sut effaith y bydd hynny'n ei chael ar y berthynas waith rhyngddynt a darparwyr.<br>ii. Hoffent weld system rheoli gwybodaeth gyson ar draws awdurdodau lleol. Gall fod yn broblem i ddarparwyr sy'n gweithio ar draws sawl awdurdod lleol os oes gan pob awdurdod system wahanol.<br>iii. Newidiadau i rôl y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol – o dan y system newydd arfaethedig nid yw'r darparwyr eisiau gweld colli unrhyw rai o'r manteision a ddeilliodd o strwythyr presennol y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol oherwydd ei fod yn gweithio'n dda, ac maen nhw'n pryderu ynghylch colli llais y darparwyr. Ar y cyfan, mae darparwyr yn cefnogi cysylltu'r grwpiau Cydweithredu Rhanbarthol â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ond maen nhw'n credu bod angen llais cryfach i'r sector tai ar y Bwrdd i gynrychioli'r Grant Cymorth Tai/digartrefedd.<br>iv. Roedd teimlad bod angen i ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaethau allu codi pryderon â Llywodraeth Cymru a bod angen nodi hyn yn y canllawiau.<br>v. Mae darparwyr yn pryderu ynghylch canlyniad y gwaith dosrannu a'i effaith.<br><br>• Dywedodd CM (sy'n Aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar hyn o bryd) fod y Bwrdd yn rhy fawr i fod yn ddull cyflenwi effeithiol. Dylai'r byrddau fod yn ymwneud â'r strwythur llywodraethu a sut y'i rheolir a dylent ddeall nad | |

| | |
|---|---|
| ydyn nhw'n ddull cyflenwi ynddyn nhw'u hunain; maen nhw'n asesu anghenion ac yn gosod trywydd strategol.<br>• Dywedodd DB ei bod yn croesawu cynnwys ymgysylltu â phartïon yn y system cyfiawnder troseddol.<br><br>**Cymorth Tai ac Anableddau Dysgu**<br>• Yn ei adroddiad ar y rhaglen Cefnogi Pobl ym mis Awst 2017, tynnodd Archwilydd Cyffredinol Cymru sylw at broblemau ynghylch cymhwystra pobl ag Anableddau Dysgu i gael cymorth a gwahaniaethau rhwng y lefelau o gymorth sy'n cael eu darparu. Cafodd gwaith yn ymateb i'r argymhelliad cysylltiedig ei gynnwys fel ffrwd waith o fewn y gwaith ehangach ar ddatblygu'r Grant Cymorth Tai newydd.<br>• Mae'r elfen o'r gwaith hwn sy'n ymwneud ag ymgysylltu wedi cael ei gwblhau. Hefyd, cafwyd yr adroddiad drafft o'r ymchwil ariannol, a disgwylir i'r adroddiad terfynol ddod i law yn yr wythnos yn cychwyn 28 Hydref. Bydd canlyniadau'r ddwy elfen yn cael eu tynnu ynghyd er mwyn llunio cyngor ar gyfer penderfyniad gan Weinidog ganol mis Tachwedd.<br>• Ar hyn o bryd, mae'r canllawiau drafft ar gyfer y Grant Cymorth Tai wedi cael eu hysgrifennu fel petai Anableddau Dysgu am aros o fewn y Grant Cymorth Tai.<br><br>**Dosbarthiad**<br>• Mae'r ffrwd waith ar ailddosbarthu'n mynd yn dda. Mae ymchwilwyr wedi ymgysylltu â'r sector mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys gweithdai, arolygon ar-lein a chyfweliadau. Y gobaith yw y bydd yr adroddiad terfynol ar gael erbyn canol mis Tachwedd 2019. Ar ôl cael yr adroddiad terfynol bydd argymhellion yn cael eu cynnig i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol<br><br>**Camau Nesaf y Grant Cymorth Tai**<br>• Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Grant Cymorth Tai ym mis Ionawr 2020<br>• Cyhoeddi'r canllawiau Grant Cymorth Tai terfynol ddiwedd mis Ionawr 2020<br>• Rhoi canllawiau'r Grant Cymorth Tai ar waith 01 Ebrill 2020. | |
| **4. Adolygiadau Blynyddol y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol 2018-19** | |
| • Dosbarthwyd adolygiadau Blynyddol y Pwyllgorau ar gyfer 2018-19, ynghyd â chrynodeb o bob un, i aelodau er mwyn clywed eu sylwadau.<br>• Cydnabu KD fod cynnydd wedi'i wneud ers y llynedd, a'i bod yn bwysig dros ben peidio â cholli'r manteision hynny. Mae angen cydnabod cynnydd yn y strwythur newydd ac adeiladu arno. | |

| | |
|---|---|
| • Cytunodd CE. Mae'r canlyniadau'n amrywio ond mae'n ymddangos bod yr holl Bwyllgorau wedi gwneud cynnydd.<br>• Dywedodd JS ei bod yn bwysig fod rhannu arfer da yn parhau o dan y system newydd. | |
| **5. Trafod blaenoriaethau'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (SPNAB) ar gyfer y dyfodol** | |
| **Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cymorth Tai (HSNAB)**<br><br>Dyma awgrymiadau a wnaed ar gyfer y bwrdd yn y dyfodol:<br>• Mae rhaid bod diben y bwrdd yn eglur a dylid creu Rhaglen Waith a chynllun gweithredu.<br>• Dylid sefydlu grwpiau Gorchwyl a Gorffen i edrych ar rannau penodol o'r gwaith ac yna i adrodd yn ôl i'r bwrdd.<br>• Y posibilrwydd o uno grwpiau Gorchwyl a Gorffen Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl â'r byrddau/grwpiau gorchwyl a gorffen digartrefedd sy'n bodoli eisoes.<br>• Gweithredu'n fwy strategol, edrych ar dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg gan gynnwys tystiolaeth ryngwladol. Meincnodi – sut hwyl mae Cymru'n ei gael ar y gwaith? Ymateb i broblemau sy'n dod i'r amlwg.<br>• Mae angen sicrhau bod y bwrdd newydd yn cwmpasu'r sector cyhoeddus cyfan.<br>• Mae angen iddi fod yn glir pa werth ychwanegol y mae'r bwrdd yn ei gynnig.<br>• Mae angen i'r bwrdd fod yn wirioneddol gydweithredol ac iddo edrych ar y sefyllfa'n ehangach, nid edrych ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn unig ond ar beth mae'r sector cyfan yn ei wneud.<br>• Awgrymodd KD y dylid cynnig argymhellion a chasgliadau i'r Gweinidog ar ôl pob cyfarfod.<br>• Dylai'r Gweinidog a'r Cadeirydd osod agenda'r bwrdd ar y cyd.<br>• O ganlyniad i'r drafodaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn llunio papur yn cynnwys cynigion o ran natur bosibl Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cymorth Tai i'w drafod a gwneud sylwadau arno yn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr.<br>• Cytunwyd nad oedd angen i'r Grŵp Ymchwil a Chyllid Strategol gyfarfod bellach gan ei fod wedi cwblhau ei raglen waith. | Llywodraeth Cymru i lunio papur yn cynnwys cynigion |
| **6. Pynciau Llosg** | |
| **Camddefnyddio Sylweddau**<br>• Cyhoeddwyd Cynllun Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru 2019-22 ar 23 Hydref 2019. Mae'n adeiladu at fframwaith a sefydlwyd gan y strategaeth Camddefnyddio Sylweddau, 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed', â'r nod cyffredinol o leihau'r niwed a achosir i'r unigolyn, ac i'r gymdeithas ehangach, gan | |

| | |
|---|---|
| gamddefnyddio sylweddau. Bydd y cynllun cyflawni hwn, gydol ei oes, yn sicrhau bod camddefnyddio sylweddau yn cael sylw ar draws meysydd polisi eraill yn Llywodraeth Cymru ac yn rhan annatod ohonynt. Hefyd bydd yn sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn digwydd ar lefelau cenedlaethol a lleol, i roi sicrwydd bod gennym ddull ataliol, hir-dymor ac integredig o weithredu er mwyn gwella canlyniadau.<br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r dasg o ddatblygu'r Fframwaith Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer carchardai i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hon yn un elfen o blith pedair: y gweddill yw Iechyd Meddwl, Rheoli Meddyginiaethau ac Amgylcheddau Carchardai. Nod y gwaith cydweithredol newydd hwn yw sicrhau bod carcharorion yn gallu byw mewn amgylcheddau sy'n hybu iechyd a llesiant a lle y gellir cael gwasanaethau iechyd o safon sy'n cyfateb i wasanaethau yn y gymdeithas yn gyffredinol. Bydd y Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar ryddhau pobl o'r carchar i dai a chefnogaeth priodol. Bydd gweithgarwch helaeth yn mynd rhagddo yn 2020 i ddatblygu a mireinio'r Fframwaith, gan gynnal gweithdai a gwneud gwaith ymgysylltu.<br><br>**Lansio Gweithdrefnau Diogelu**<br>• Mae'r Gweithdrefnau Diogelu newydd ar gyfer Cymru gyfan yn cael eu lansio yn ystod yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol, sef yr wythnos yn cychwyn 11 Tachwedd. Bydd y gweithdrefnau'n dod i rym yn ffurfiol ym mis Ebrill 2020. Bydd hyfforddiant yn cael ei gomisiynu gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol ar gyfer plant ac oedolion a nhw hefyd fydd yn gyfrifol am gyflwyno cynlluniau hyfforddi. | |
| **9. Unrhyw Fusnes Arall – dyddiadau cyfarfodydd 2020** | |
| • Bydd y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr. Bydd Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020 a bydd y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cymorth Tai newydd yn ei le. Cytunwyd y bydd y bwrdd yn parhau i gyfarfod bob chwarter yn ystod 2020, hyd nes bod y bwrdd mewn sefyllfa i allu penderfynu ar gylch gorchwyl y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cymorth Tai. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei adolygu. | |
| **10. Y Cyfarfod Nesaf** | |

| | |
|---|---|
| • Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 28 Ionawr 2020 yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays. | |

## Log Camau Gweithredu
### Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl

| Dyddiad Nodi’r Cam Gweithredu | Manylion y Cam Gweithredu | Yn Gyfrifol | Statws |
|---|---|---|---|
| **1.** 11 Mehefin 2019 | Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog i gyflwyno awgrymiadau ar gyfer trywydd Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl yn y dyfodol. | Y Cadeirydd | Mae hyn wedi’i ohirio hyd nes y bydd rhagor o waith wedi’i wneud |
| **2.** 11 Mehefin 2019 | Cyflwynwyd papur sefyllfa oddi wrth y grŵp Ymchwil a Chyllid Strategol ynghylch y fframwaith canlyniadau. MC i ddiwygio’r papur a’i gyflwyno i’r Gweithgor Data Alinio Cyllid. | Michelle Church | Wedi’i gwblhau |
| | | | |